

# Pecyn Adnoddau:

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Hydref 2020

---

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus eisiau clywed barn pobl ifanc am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i helpu i lywio eu hymchwiliad:

**Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.**



Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

## Cynnwys:

1. Cyflwyniad
2. Cyfarwyddiadau'r gweithgaredd
3. Cyfarwyddiadau ar gyfer dychwelyd y taflenni gwaith
4. Taflen waith person ifanc

Mae taflenni gwaith wedi'u cynnwys ar gyfer pob un o'r saith nod llesiant.

5. Adnoddau ychwanegol

Yn gynwysedig mae geirfa, enghreifftiau o bob cwr o'r Byd o'r saith nod llesiant a thrawsgrifiad o'r fideo cyflwyno. Gall yr adnoddau hyn gynorthwyo trafodaeth mwy manwl.

6. Cydsyniad: Cadw mewn cysylltiad

Cofiwch gynnwys y ffurflen hon wrth ddychwelyd y taflenni gwaith fel y gallwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am hynt yr ymholiad.

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

## Cyflwyniad

Mae gan **Senedd Cymru** 14 pwyllgor. Un o'r pwyllgorau yw'r **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**. Mae'r Pwyllgor yn edrych ar unrhyw fater yn ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Nod y Pwyllgor yw casglu tystiolaeth ynghylch pum mlynedd gyntaf gweithredu **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** ("y Ddeddf"), gan ganolbwyntio'n bennaf ar rwystrau i weithredu. O ystyried natur y Ddeddf a'i pherthnasedd i bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol, mae'r Pwyllgor am glywed barn pobl ifanc.

Mae'r pwyllgor eisiau deall barn pobl ifanc ynglŷn a:

1. Ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'i gweithrediad;
2. Profiadau o sut mae'r Ddeddf wedi'i weithredu;
3. Safbwyntiau ar y rhwystrau i weithredu.

Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori'n eang ar y pwnc hwn cyn i sesiynau tystiolaeth ddechrau ym mis Ionawr 2021.

Gallwch ddarganfod mwy am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar [wefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru](#).

## Pwynt cyswllt

Os hoffech ddarganfod mwy am yr ymholiad neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:

Rhayna Mann

Pennaeth Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion

[Rhayna.mann2@senedd.cymru](mailto:Rhayna.mann2@senedd.cymru)

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

## Cyfarwyddiadau'r gweithgaredd

Rydym wedi paratoi cyflwyniad PowerPoint, sy'n cynnwys arweiniad hwylusydd yn yr adran nodiadau: [https://www.senedd.wales/NAfW/Documents/Future-Generations-Presentation/Future\\_Gens\\_Presentation\\_w.pptx](https://www.senedd.wales/NAfW/Documents/Future-Generations-Presentation/Future_Gens_Presentation_w.pptx)

Awgrymwn y dylid rhannu eich grŵp yn 7 is-grŵp fel y gall pob is-grŵp drafod nod llesiant gwahanol. Fodd bynnag, mae croeso i chi gwblhau'r gweithgaredd mewn ffordd sy'n gweithio'n orau i'ch grŵp e.e. trafod un nod llesiant fel grŵp neu un neu fwy o nodau llesiant fel unigolion neu is-grwpiau.

Ar gyfer y gweithgaredd hwn bydd angen:

- Sgrin a thaflunydd, neu laptop i weld y cyflwyniad PowerPoint;
- Bydd angen clywed darn o'r cyflwyniad hefyd gan ei fod yn cynnwys fideo; a
- Llungopïau o'r taflenni gwaith.

## Cyfarwyddiadau ar ddychwelyd y daflen gwaith

Ar ôl eu cwblhau, tynnwch lun neu sganiwch y taflenni gwaith ac e-bostiwch at [Rhayna.mann2@senedd.cymru](mailto:Rhayna.mann2@senedd.cymru) Hefyd gallwch eu postio at: **FREEPOST, Rhayna Mann, Llawr 4, Tŷ Hywel, Senedd Cymru, Caerdydd, CF99 1SN.**

Wrth ddychwelyd y taflenni gwaith, cofiwch gynnwys y wybodaeth ganlynol hefyd os gwelwch yn dda:

- Manylion cyswllt arweinydd y grŵp;
- Enw'r Grŵp (sut yr hoffech gael eich adnabod);
- Oedran isaf y cyfranogwyr;
- Oedran uchaf y cyfranogwyr;
- Nifer y cyfranogwyr yn y grŵp;
- Cod post yr ardal y mae eich grŵp yn dod ohoni.

**Dychwelwch eich taflenni gwaith erbyn dydd Llun 7 Rhagfyr 2020.**

## Taflen gwaith: Cymru lewyrchus

### 1. Faint o bobl yn eich grŵp sydd wedi clywed am y Ddeddf?

Ateb	Cyfanswm
Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	

### 2. Faint o bobl yn eich grŵp sydd wedi clywed am Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol?

Ateb	Cyfanswm
Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Gallai Cymru lewyrchus olygu bod...

- Gan bawb swyddi ac nid oes tlodi.
- Gall pobl ennill cyflog rhesymol.
- Rydym yn byw mewn cymdeithas carbon isel.
- Rydym yn defnyddio adnoddau naturiol yn ofalus ac yn cydnabod terfynau ein hamgylchedd.
- Gennym sgiliau sy'n addas ar gyfer y dyfodol.
- Gan bawb fynediad at y rhyngrwyd.
- Mwy o fusnesau bach a chanolig yn darparu gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi cymunedau lleol.


### **3. Beth mae Cymru lewyrchus yn ei olygu i chi?**

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Mae rhai pobl yn credu y bydd rhwystrau i gyflawni Cymru lewyrchus:

- Mae pobl yn dychryn wrth weld effeithiau plastig ar yr amgylchedd a bywyd morol ac yn cyfeirio at y rôl bwysig sydd gan reoliadau a manwerthwyr yn defnyddio llai ohono neu'n osgoi ei ddefnyddio.
- Dylai pobl ifanc yng Nghymru fod wedi eu paratoi'n well gyda sgiliau ar gyfer economi werdd â thechnoleg fodern.
- Mae'r bygythiad o newid yn yr hinsawdd yn un go iawn, ond rydym yn dal i fod ynghlwm wrth ein ffordd o fyw, ac ni fydd pawb yn agored iawn i'r syniad o'i newid..

#### **4. Beth yw'r rhwystrau mwyaf i sicrhau Cymru lewyrchus?**



Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

## Taflen waith: Cymru gydnerth

### 1. Faint o bobl yn eich grŵp sydd wedi clywed am y Ddeddf?

Ateb	Cyfanswm
Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	

### 2. Faint o bobl yn eich grŵp sydd wedi clywed am Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol?

Ateb	Cyfanswm
Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	



Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Gallai Cymru gydnerth olygu bod...

- Rydym yn gofalu am yr amgylchedd naturiol ac yn ei wella drwy reoli tir a môr yn iawn i greu ecosystemau iach.
- Rydym yn lleihau ein heffaith ar adnoddau naturiol y byd.
- Rydym yn barod am bethau fel llifogydd.
- Rydym yn manteisio ar ofod gwyrdd a glas naturiol i gefnogi lles.
- Gennym ddealltwriaeth well o natur.
- Gennym aer a dŵr glân ar gyfer bywyd gwylt a phobl.


### **3. Beth mae Cymru gydnerth yn ei olygu i chi?**

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Mae rhai pobl yn credu y bydd rhwystrau i gyflawni Cymru gydnerth:

- Mae'r bygythiad o newid yn yr hinsawdd yn un go iawn, ond rydym yn dal i fod ynghlwm wrth ein ffordd o fyw, ac ni fydd pawb yn agored iawn i'r syniad o'i newid.
- Mae angen i ni wrthdroi'r sefyllfa o ran colli bioamrywiaeth fel y gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau natur a'r buddion cysylltiedig.
- Nid ydym bob amser yn dda am gydnabod neu werthfawrogi'r buddion i iechyd corfforol a meddyliol sy'n gysylltiedig â mannau awyr agored.

#### **4. Beth fydd y rhwystrau mwyaf o ran sicrhau Cymru gydnerth?**



Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

## Taflen waith: Cymru iachach

### 1. Faint o bobl yn eich grŵp sydd wedi clywed am y Ddeddf?

Ateb	Cyfanswm
Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	

### 2. Faint o bobl yn eich grŵp sydd wedi clywed am Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol?

Ateb	Cyfanswm
Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Gallai Cymru iachach olygu bod...

- Rydym yn deall y gwahanol bethau sy'n gwneud pobl yn sâl, a byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i'w hatal rhag mynd yn sâl yn y lle cyntaf.
- Pan mae pobl yn sâl, gallant weld meddyg pan fydd angen.
- Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw iechyd meddwl da.
- Rydym yn helpu pobl i ymddwyn gyda charedigrwydd ac i ddeall lles meddyliol.
- Rydym yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd ac yn iachach felly.
- Rydym yn dylunio ac yn adeiladu lleoedd sy'n annog pobl i wneud ymarfer corff a bod yn iach..


### **3. Beth mae Cymru iachach yn ei olygu i chi?**

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

: Mae rhai pobl yn credu y bydd rhwystrau i gyflawni Cymru iachach:

- Mae pobl yn teimlo fel nad ydynt yn cael eu trin fel 'unigolyn' yn y gwasanaeth iechyd gan fod diffyg empathi a chyswllt dynol.
- Amseroedd aros i gael mynediad at wasanaethau iechyd, yn enwedig i weld gweithwyr iechyd meddwl.
- Y pellter y mae'r cymunedau gwledig yn ei wynebu i gael mynediad at wasanaethau iechyd.
- Nid yw rhai pobl yn fodlon gwneud ymarfer corff na bwyta'n iach!

#### **4. Beth fydd y rhwystrau mwyaf o ran sicrhau Cymru iachach?**



Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

## Taflen waith: Cymru sy'n fwy cyfartal

### 1. Faint o bobl yn eich grŵp sydd wedi clywed am y Ddeddf?

Ateb	Cyfanswm
Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	

### 2. Faint o bobl yn eich grŵp sydd wedi clywed am Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol?

Ateb	Cyfanswm
Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Gallai Cymru sy'n fwy cyfartal olygu bod...

- .Gan bawb gyfle cyfartal beth bynnag yw eu cefndir.
- Pobl yn mwynhau gwaith hyblyg a theg sy'n eu galluogi i gyrraedd eu potensial.
- Ysgolion yn dysgu sgiliau bywyd i ni, a byddwn yn treulio mwy o amser yn bod yn greadigol.
- Gan bawb lais beth bynnag yw eu cefndir.
- Pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae bod yn wahanol yn beth cadarnhaol.
- Gwahanol rannau o'n system drafnidiaeth yn cyd-fynd yn dda. Byddant yn fforddiadwy ac yn ddi-garbon.


### **3. Beth mae Cymru sy'n fwy cyfartal yn ei olygu i chi?**

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Mae rhai pobl yn credu y bydd rhwystrau i gyflawni Cymru sy'n fwy cyfartal:

- Mae'r cyfoethog yn dod yn gyfoethocach, mae'r tlawd yn brwydro i gael deupen llinyn ynghyd ac mae gennym raniad cymdeithasol enfawr, ni fydd hyn byth yn newid.
- Nid yw pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli gan eu hysgol neu eu cyflogwr, a dylai'r newid sydd ei angen ddechrau ar frig sefydliadau.
- Mae canfyddiad nad yw gwasanaethau mewn ardaloedd trefol a gwledig yn gyfartal, ac mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl

#### **4. Beth fydd y rhwystrau mwyaf o ran sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal?**





## Taflen waith: Cymru o gymunedau cydlynus

### 1. Faint o bobl yn eich grŵp sydd wedi clywed am y Ddeddf?

Ateb	Cyfanswm
Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	

### 2. Faint o bobl yn eich grŵp sydd wedi clywed am Gomisynydd Cenedlaethau'r Dyfodol?


Ateb	Cyfanswm
Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Gallai Cymru o gymunedau cydlynus olygu bod...

- Cymunedau'n cyd-fyw yn hapus ac yn ddiogel.
- Gall pobl a chymunedau wneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.
- Gan gymunedau mewn dinasoedd ac yng nghefn gwlad gysylltiad da â'i gilydd, yn ffisegol ac yn ddigidol.
- Gan bawb le cynnes, diogel, cyfforddus ac effeithlon o ran ynni i fyw ynddo.
- Gall cymaint o bobl â phosibl weithio pan maen nhw eisiau a sut maen nhw eisiau.
- Pobl leol yn cael dweud eu dweud am yr hyn sy'n cael ei adeiladu yn eu cymunedau, a pha wasanaethau sydd ar gael iddynt (e.e. ysgolion, meddygon, ac ati).

### **3. Beth mae Cymru o gymunedau cydlynus yn ei olygu i chi?**




Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Mae rhai pobl yn credu y bydd rhwystrau i gyflawni Cymru o gymunedau cydlynus:

- Mae'n anodd i bobl ymgysylltu â'i gilydd pan maen nhw'n cymudo mewn car i bobman.
- Mae yna bryderon eang am ddyfodol cymunedau lleol a chanol trefi.
- Pryder am ddiffyg ysbryd cymunedol, a sut i gynyddu cydlyniant.
- Mae angen cyfleoedd arnom i ddod â phobl ynghyd ond mae lleihad yn nifer y lleoedd y gallu cymunedau gysylltu â'i gilydd oherwydd toriadau cyllidebol a chynllunio.

#### **4. Beth fydd y rhwystrau mwyaf o ran cyflawni Cymru o gymunedau cydlynus?**



## Taflen waith: Cymru â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

### 1. Faint o bobl yn eich grŵp sydd wedi clywed am y Ddeddf?

Ateb	Cyfanswm
Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	

### 2. Faint o bobl yn eich grŵp sydd wedi clywed am Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol?

Ateb	Cyfanswm
Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Gallai Cymru â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu olygu bod...

- Gan bawb lawer o gyfleoedd diwylliannol, waeth ble maen nhw'n byw, eu hoedran neu beth yw eu cefndir.
- Llawer o bobl yn gallu siarad Cymraeg. Mae bod yn ddwyieithog yn beth cadarnhaol i'n cymunedau a'n heconomi.
- Defnyddir diwylliant i gael sgiliau newydd a dysgu am faterion byd-eang.
- Pobl yn defnyddio diwylliant i ailgysylltu â byd natur.

### **3. Beth mae Cymru â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu yn ei olygu i chi?**



Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Mae rhai pobl yn credu y bydd rhwystrau i gyflawni Cymru â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:

- Rwy'n siarad Cymraeg yn yr ysgol ond ni fyddaf byth yn ei defnyddio y tu allan i'r ysgol.
- Roedd y darpariaethau cyfrwng Cymraeg i genedlaethau blaenorol yn wael, ac mae yna oedolion bellach a hoffai siarad Cymraeg ond na chafodd gyfle i ddysgu.
- Nid yw sgiliau a phynciau creadigol yn cael eu hystyried yr un mor bwysig â phynciau eraill yn yr ysgol.
- Mae toriadau a chyni yn cael effaith ddifrifol ar ddiwylliant, ac fel rheol dyma'r peth cyntaf i fynd pan fydd cyrff cyhoeddus dan bwysau ariannol.

#### **4. Beth fydd y rhwystrau mwyaf o ran sicrhau Cymru â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu?**

## Taflen waith: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

### 1. Faint o bobl yn eich grŵp sydd wedi clywed am y Ddeddf?

Ateb	Cyfanswm
Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	

### 2. Faint o bobl yn eich grŵp sydd wedi clywed am Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol?

Ateb	Cyfanswm
Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Gallai Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang olygu bod...

- Rydym yn deall sut mae'r hyn a wnawn yma yng Nghymru yn effeithio ar bobl ledled y byd.
- Rydym yn meddwl am bobl eraill ledled y byd wrth wneud penderfyniadau.
- Rydym yn gofalu am yr amgylchedd.
- Rydym yn gwneud Cymru'n groesawgar, yn ddiogel ac yn deg i bawb.
- Rydym yn gwneud yr hyn a allwn i atal pethau negyddol rhag digwydd ledled y byd.
- Rydym yn prynu pethau moesegol a chynaliadwy yn unig.
- Rydym yn defnyddio adnoddau naturiol yn effeithlon ac yn cyfrannu at les byd-eang.

### **3. Beth mae Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang yn ei olygu i chi?**





Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Mae rhai pobl yn credu y bydd rhwystrau i gyflawni Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:

- Mae'r bygythiad o newid yn yr hinsawdd yn un go iawn, ond rydym yn dal i fod ynghlwm wrth ein ffordd o fyw, ac ni fydd pawb yn agored iawn i'r syniad o'i newid.
- Mae angen newidiadau mawr mewn agweddau at wastraff a phecynnu cynaliadwy.
- Mae pobl yn dychryn wrth weld effeithiau plastig ar yr amgylchedd a bywyd morol ac yn cyfeirio at y rôl bwysig sydd gan reoliadau a manwerthwyr yn defnyddio llai ohono neu'n osgoi ei ddefnyddio.
- Dylai pobl ifanc yng Nghymru fod wedi eu paratoi'n well gyda sgiliau sy'n addas ar gyfer y dyfodol.
- Mae ein systemau bwyd presennol yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd ac iechyd pobl, ac erbyn hyn mae angen system fwyd ddiogel, deg a chynaliadwy sy'n gwella llesiant yng Nghymru.

#### **4. Beth fydd y rhwystrau mwyaf o ran sicrhau Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang?**



Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

## Adnoddau ychwanegol

### Geirfa

#### Amgylchedd

Yr amgylchedd yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr awyr, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.

#### Adnoddau

Mae adnoddau yn bethau defnyddiol sydd gennym ni neu bethau rydyn ni'n berchen arnyn nhw. Er enghraifft, adeiladau, cerbydau, gwybodaeth, arian a staff.

#### Cyrff cyhoeddus

Mudiadau yw cyrff cyhoeddus sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau i bobl yng Nghymru. Er enghraifft y GIG a gwasanaethau tân ac achub.

#### Diwylliant

Mae diwylliant yn batrwm o ymddygiad a rennir gan gymdeithas, neu grŵp o bobl. Mae llawer o wahanol bethau yn ffurfio diwylliant cymdeithas. Mae'r pethau hyn yn cynnwys bwyd, iaith, dillad, offer, cerddoriaeth, y celfyddydau, arferion, credoau, a chrefydd.

#### Pwyllgor

Mae pwyllgor yn grŵp o bobl a ddaeth ynghyd i ymchwilio ac edrych ar wahanol faterion. Mae gan Senedd Cymru 14 pwyllgor fel y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n ymchwilio i bynciau sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc ac addysg.

#### Senedd Cymru

Mae Senedd Cymru yn grŵp o bobl a etholwyd gan bobl Cymru. Mae'n cynrychioli buddiannau pobl Cymru, yn gwneud deddfau i Gymru, yn cytuno ar rai trethi ac yn cadw Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

## Ymgynghoriad

Ymchwiliad yw pan fydd pwyllgor yn ymchwilio i fater. Byddant yn casglu tystiolaeth gan lawer o wahanol bobl ac yna'n ysgrifennu adroddiad i Lywodraeth Cymru, gan wneud argymhellion ar sut i ddatrys y mater.

## **Y saith nod llesiant: Enghreifftiau o bob cwr o'r byd.**

### Cymru lewyrchus

---

Mae Sweden yn rhoi amser i ffwrdd o'r gwaith i weithwyr fod yn entrepreneuriaid o dan y Ddeddf 'Hawl i Wyliau ar gyfer Gweithredu Busnes'.

Mae Copenhagen wedi ymrwymo i fod y brifddinas garbon-niwtral gyntaf yn y byd erbyn 2025. Mae wedi gwneud llawer o gynnydd o ran cyrraedd ei nod ac mae ymhlith y dinasoedd gorau yn y byd ar gyfer beicio, gyda 375km o lwybrau beicio a sawl pont i gerddwyr/beiciau dros yr harbwr.

Mae'r Ffindir yn ystyried wythnos waith pedwar diwrnod i hybu cynhyrchiant a lleihau allyriadau carbon.

Mae Grŵp Pobl yn gweithio gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot a Phrifysgol Abertawe i integreiddio technoleg arloesol i ddatblygu 'Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer', gan fynd y tu hwnt i'r cysyniad o gartrefi carbon-niwtral i feddwl am orgynhyrchu ynni.

Cyflwynodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gerbydau hydrogen a beiciau trydan yn ardaloedd Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, a gosodwyd goleuadau LED ym mhob gorsaf dân, a phaneli thermol solar a phaneli ffotofoltäig mewn pum gorsaf ar draws y gwasanaeth.

### Cymru gydnerth

---

Yn Japan, mae 'Shinrin yoku', sy'n cael ei gyfieithu fel 'ymdrochi mewn coedwig', yn golygu mynd am dro mewn coedwigoedd er lles ysbrydol a chorfforol. Mae 48 o lwybrau swyddogol, ac mae tua chwarter y boblogaeth wedi rhoi cynnig arni.

Yn Ysbyty Llandochau ym Mro Morgannwg, mae Ein Berllan yn berllan gymunedol lle mae'r bwrdd iechyd yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu parc iechyd cymunedol ecolegol sydd o fudd i fywyd gwyllt, planhigion a phobl.

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Gwaith tirlunio cynaliadwy ar gyfer bwyd yn Genefa, y Swistir, lle mae cymunedau wedi gweithio gyda'i gilydd; mae cymdogion yn trafod ac yn cynllunio beth fydd pob un yn tyfu fel y gallant rannu a chyfnewid bwyd.

Mae addysg am yr hinsawdd wedi'i hychwanegu at y cwricwlwm cenedlaethol yn yr Eidal, sef y wlad gyntaf i gyflwyno addysg hinsawdd orfodol yn ysgolion gwladol.

## Cymru iachach

---

Yn Seoul, De Korea, mae partis disgo yn ystod y dydd i bobl dros 65 oed, er mwyn mynd i'r afael â'r broblem o unigrwydd ac unigedd.

Mae Clwb Mwytho San Francisco yn uno pobl hŷn a chŵn hŷn sydd angen cwmni, ymarfer corff a rhywun i'w mwytho.

Ymyriad a ddechreuodd yn Bogotá, Colombia yw Ciclovía, ac mae wedi lledu i 100 o ddinasoedd eraill yn Ne America. Mae'n gyfle i redwyr, cerddwyr, beicwyr a sglefrwyr wneud ymarfer corff ar strydoedd drwy eu cau i geir, bob bore Sul ac ar bob gŵyl gyhoeddus.

Yn Efrog Newydd mae 'Lles mewn Ysgolion' yn ffurfio partneriaethau ag arweinwyr ysgolion, athrawon, cogyddion, hyfforddwyr, rhieni a phlant, i ddatblygu a gweithredu rhaglenni sy'n darparu bwydydd maethlon, amgylcheddau, a chyfleoedd i blant chwarae, dysgu a thyfu.

Mae digwyddiadau rhedeg mewn parc (*parkruns*) yn dod yn fwyfwy poblogaidd fel ffordd i bobl wneud ymarfer corff mewn ffordd gymdeithasol, waeth beth fo'u gallu neu eu cefndir.

## Cymru sy'n fwy gyfartal

---

Rwanda yw un o arweinwyr y byd ym maes cydraddoldeb rhywiol. Ar 86 y cant mae ganddo un o'r cyfraddau uchaf yn y byd o ran cyfranogiad menywod yn y gweithlu ac mae menywod yn ennill 88 sent am bob doler y mae dynion yn ei hennill (sy'n uchel o'i gymharu â gwledydd eraill).

Sefydlodd Stormzy, rapiwr o Brydain, ddwy ysgoloriaeth i gefnogi myfyrwyr du o Brydain i astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt; ac ariannodd ffioedd dysgu a threuliau byw dau fyfyrwr arall. Am y tro cyntaf, mae cyfanswm nifer y myfyrwyr du yng Nghaergrawnt sy'n dechrau fel israddedigion yn uwch na 200.

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Yn 2015, ffurfiodd y Prif Weinidog Justin Trudeau gabinet cytbwys o ran y rhywiau am y tro cyntaf yn hanes Canada, a rhoddodd y wlad yn y pumed safle yn y byd o ran canran y menywod mewn swyddi gweinidogol.

Mae gan Atlanta yn yr Unol Daleithiau boblogaeth sy'n heneiddio ac mae'r ddinas yn adeiladu tref i gynnig cartref iach iddynt yn eu henaint. Y bwriad yw cynnwys lleoedd celf, digwyddiadau cyhoeddus rheolaidd, marchnadoedd tymhorol a fferm organig 25 erw.

## Cymru o gymunedau cydlynus

---

Mae'r Rhaglen Encore yn rhoi amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl i weithwyr sy'n agosáu at ymddeol, er mwyn iddynt wirfoddoli. Mae'r rhaglen yn paru eu sgiliau ag anghenion yn y gymuned, gan eu helpu i bontio i fywyd ar ôl ymddeol.

Cyngor Sir Fynwy oedd yr awdurdod lleol cyntaf yn y DU i symud ymlaen gyda menter a oedd â'r nod o ddod o hyd i atebion i unigrwydd a phrinder trafnidiaeth gyhoeddus mewn rhannau gwledig o'r sir.

Mae'r llywodraeth ym Mrwsel yn cefnogi mentrau lle mae pobl hŷn yn cynnig ystafell yn eu cartrefi i berson iau, i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd a phroblemau yn ymwneud â fforddiadwyedd tai. Mae prosiectau eisoes ar y gweill i greu 350 o gartrefi sy'n cael eu rhannu gan genedlaethau gwahanol.

Bydd ysgol newydd a gynlluniwyd yn Leeds yn rhan o adeilad aml-genhedlaeth, ac yn cynnwys cartref gofal i bobl hŷn. Ni fydd gan y datblygiad unrhyw leoedd parcio ar gyfer staff, nac ar gyfer ymwelwyr, ac mae'r datblygwyr yn gobeithio y byddant yn annog plant i gerdded i'r ysgol a gwneud i'w rhieni osgoi defnyddio ceir i'w gollwng.

Mae gan Berlin ddiwylliant bywiog o gelf stryd gyda lleoedd pwrpasol fel 'orielau' cyfreithlon sy'n denu ymwelwyr o bob rhan o'r byd

## Cymru â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

---

Yn yr Iseldiroedd roedd y trenau am ddim ar Ddiwrnod Cenedlaethol Llyfrau i bobl sy'n teithio gyda llyfr yn lle tocyn.

Mae canolfan gelf a diwylliant Ty Pawb yn Wrecsam yn ofod sy'n cyfuno marchnad bwyd stryd, marchnad, oriel, ysgol celf a chreffft, sinema a mwy – gan roi sawl budd i'r dref a'r gymuned.

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Mae man chwarae Amgueddfa Sain Ffagan, Yr Iard, yn creu cysylltiadau â'r amgueddfa wrth feithrin chwarae creadigol a bod mor gynaliadwy ac ecogyfeillgar â phosibl.

Roedd Landschaftspark yn Duisburg-Meiderich, yr Almaen, yn arfer bod yn ffatri gwaith haearn ond cafodd ei adael yn yr 1980au. Ers hynny, mae wedi cael ei droi yn barc a chanolfan ddiwylliannol.

Pontio/Prifysgol Bangor, Cymru - Datblygiad iaith Gymraeg gyda chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i staff a'r gymuned ehangach. Mae'r Brifysgol hefyd wedi sefydlu prosiect ARFer i nodi arferion iaith staff er mwyn annog defnydd o'r Gymraeg.

## **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

---

Bellach mae gan naw ysgol ledled Cymru wisgoedd ysgol Masnach Deg, gan gynnwys Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng, Ysgol Esgob Morgan yn Llanelwy, St Bernadette's yng Nghaerdydd ac Ysgol Gymunedol Neyland yn Sir Benfro. Mae nodi bod yn rhaid i wisgoedd ysgol gael eu gwneud o gotwm Masnach Deg mewn ffatrioedd moesegol yn un ffordd y gall ysgolion wneud gwahaniaeth.

Iceland, sydd â'i bencadlys yng Nglannau Dyfrdwy, oedd y manwerthwr mawr cyntaf yn fyd-eang i ymrwymo i roi'r gorau i ddefnyddio plastigau untro ym mhecynnau ei frand ei hun (mae disgwyl y bydd y broses wedi'i chwblhau erbyn 2023), a'r cyntaf i fabwysiadu'r fathodyn di-blastig. Ers mis Ionawr 2018, bu gostyngiad o 29 y cant yn ei ddefnydd o blastig.

Mae Cyfryngwyr Benywaidd ledled y Gymanwlad yn cefnogi rhwydwaith newydd o gyfryngwyr benywaidd i gynyddu cyfranogiad menywod mewn prosesau heddwch a chyfryngu ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang. Mae ymchwil yn awgrymu bod prosesau heddwch sy'n cynnwys menywod 35 y cant yn fwy tebygol o bara, ond er gwaethaf hyn, maent yn cymryd rhan mewn dim ond 3 y cant ohonynt.

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

## Trawsgrifiad o'r fideo cyflwyno

Fel person ifanc sy'n byw yng Nghymru heddiw, bydd angen llawer o bethau a chymorth arnoch gan amryw o bobl er mwyn i chi dyfu i fyny'n bobl hapus ac iach.

Go debyg eich bod yn yr ysgol ar hyn o bryd lle mae athrawon yn eich helpu i gael addysg dda. Ar ryw adeg, byddwch wedi gorfod gweld y meddyg, y deintydd a'r nyrs. Maen nhw'n eich helpu i gadw'n iach.

Er mwyn i chi gael hwyl, mae angen digon o gyfleoedd arnoch i gymryd rhan mewn chwaraeon, i ddarllen llyfrau, i fynd i'r theatr ac i amgueddfeydd. Os ydych yn siarad Cymraeg, efallai hoffech chi wneud y pethau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hefyd, rydych eisiau teimlo'n ddiogel lle rydych chi'n byw. Mae angen dŵr yfed glân arnoch, aer glan i'w anadlu a bwyd da i'w fwyta.

Ond dyw pethau ddim yn rhwydd bob amser. Mae ein gwlad yn wynebu sawl her fawr, er enghraifft:

- Mae pobl yn byw mewn tlodi
- Mae'r hyn sy'n digwydd ledled y byd yn effeithio ar ein heconomi
- Rydym i gyd yn byw'n hirach. Mae hynny'n beth da ond mae hefyd yn golygu bod angen i ni fod yn iach am gyfnod hirach
- Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, mae llawer o bobl yn dioddef o broblemau iechyd.
- Mae'r newid yn yr hinsawdd yn cael effaith ar bethau fel ein tywydd a phris bwyd.

Os ydym eisiau trechu'r heriau hyn, rydym yn gwybod bod yn rhaid newid ein ffordd o wneud pethau.

Dyma pam mae gennym gyfraith newydd yng Nghymru, sef Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i 44 o gyrff cyhoeddus, fel awdurdodau lleol, y GIG, a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, weithio gyda'i gilydd i gyrraedd y saith nod llesiant.

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

Dyma'r saith nod llesiant:

1. Cymru lewyrchus – lle mae gan bawb swyddi a does dim tlodi
2. Cymru gydnerth – lle rydym yn barod am bethau fel llifogydd
3. Cymru iachach – lle mae pawb yn iachach ac yn gallu gweld meddyg os oes angen
4. Cymru sy'n fwy cyfartal – lle mae gan bawb gyfle cyfartal beth bynnag yw eu cefndir
5. Cymru o gymunedau cydlynus – lle gall cymunedau fyw'n hapus gyda'i gilydd
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – lle mae gennym lawer o gyfleoedd i wneud pethau gwahanol a lle gall lawer o bobl siarad Cymraeg
7. Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang – lle rydym yn gofalu am yr Amgylchedd ac yn meddwl am bobl eraill ledled y byd

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe, yw'r person a fydd yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio tuag at y nodau llesiant. Ei rôl yw diogelu a hyrwyddo buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.



Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn.

## Caniatâd: Cadw mewn cysylltiad

Diolch yn fawr iawn am gyflwyno'r sesiwn. Hoffem ni, Senedd Cymru, gadw mewn cysylltiad â chi ynglŷn â'r ymchwiliad trwy anfon diweddariadau atoch am yr ymchwiliad hwn.

Ni fyddem yn rhannu eich manylion ag unrhyw un arall a gallwch dynnu eich caniatâd ar gyfer hyn yn ôl ar unrhyw adeg.

CANIATÂD AR GYFER SENEDD CYMRU

Os ydych chi'n hapus i roi eich caniatâd, ticiwch y blwch a chwblhewch y ffurflen fer isod:

- Hoffwn gael y wybodaeth ddiweddaraf am Gyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: yr ymchwiliad hyd yn hyn:

Gallwch darllen Hysbysiad Preifatrwydd Tîm Cyfathrebu Comisiwn Senedd Cymru yma: <https://senedd.wales/cy/gethome/Pages/Privacy-Notice.aspx> am wybodaeth ynglŷn a sut bydd eich data yn cael ei ddefnyddio.

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n rheoli data'r wybodaeth rydych yn ei rhoi, a bydd yn sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei diogelu a'i defnyddio mewn ffordd sy'n dilyn y ddeddfwriaeth diogelu data. Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y ffordd y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio at Swyddog Diogelu Data'r Cynulliad: [information-request@senedd.cymru](mailto:information-request@senedd.cymru)

Mae mwy o fanylion am eich hawliau ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth (ICO): <https://cy.ico.org.uk/your-data-matters/>

Cyfeiriad e-bost:

Llofnod:

Dyddiad:

Enw: